

Cyhoeddiadau Anllad - i'w hymgynggori



Ymgynghoriad cyhoeddus ar Ganllawiau Erlyn Cyhoeddiadau Anllad

Diwrnod agor: 25 Gorffennaf 2018

Dyddiau cau: 17 Hydref 2018

Mae CPS wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch adolygiad arfaethedig o'i Ganllawiau Cyfreithiol cyfredol ar Gyhoeddiadau Anllad.

Mae'r arweiniad hwn yn cynorthwyo erlynwyr i wneud penderfyniadau ynghylch cyhuddo mewn achosion sy'n dod o dan Ddeddf Cyhoeddiadau Anllad 1959.

Mae'r Ddeddf Cyhoeddiadau Anllad yn ei gwneud hi'n drosedd i gyhoeddi deunydd a allai 'halogi neu lygru' y rhai sy'n debygol o'i weld, ei ddarllen, neu ei glywed.

Gall cyhoeddi gynnwys dosbarthu, gwerthu, benthyca neu roi'r deunydd dan sylw, neu gynnig i'w werthu neu ei fenthyca.

Gallai erlynwyr hefyd ystyried troseddau eraill wrth ymdrin â "chyhoeddiadau anllad", er enghraifft cynhennu gwedduster cyhoeddus, meddu ar ddelwedd pornograffig eithafol, datgelu delweddau rhywiol preifat heb ganiatâd, a throseddau yn erbyn Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988 a Deddf Cyfathrebu Electronig 2003.

Mae'r canllawiau'n cael eu hadolygu er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch yr hyn y gallai "cyhoeddiad anllad" fod, ac mae'n rhoi ffocws cynyddol ar y rhai a allai weld y deunydd hwn, a allai benderfynu a yw trosedd wedi'i gyflawni neu beidio.

Cynnwys yr ymgynghoriad

Mae CPS yn ceisio barnau ar y canllawiau diwygiedig gan bartïon â buddiant. Gellir [gweld y canllawiau a'r cwestiynau drafft](#) ar y wefan hon. Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg am 12 wythnos o 25 Gorffennaf. Mae'r canllawiau cyfreithiol cyfredol ar gael yn [adran Canllawiau Erlyn gwefan CPS](#).

Pan fydd wedi'i gyflawni, rhagwelir y bydd y canllawiau cyfreithiol diwygiedig yn dod i rym ddiwedd 2018.

Sut i Ymateb

Byddai o gymorth pe gallech roi eich adborth gan ddefnyddio ein ffurflen ar-lein (gweler isod) ar gyfer hwyluso dadansoddi.

Gallwch hefyd [lawrlwytho ffurflen ymateb](#), ei gwblhau, a'i ddychwelyd i DLA.Team@cps.gov.uk erbyn hanner nos ar 17 Hydref 2018. Defnyddiwch yr un ffurflen os ydych am gyflwyno copi caled o'ch ymateb i'r cyfeiriad post isod.

Os ydych chi'n ateb trwy e-bost, byddem yn ddiolchgar pe na fyddech yn atodi unrhyw ddogfennau eraill at y ddogfen ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad. Mae yna gyfyngiadau ar faint y dogfennau y gallwn eu derbyn ac mae unrhyw ddogfen ffurflen ymateb wedi'i gwblhau sydd ag atodiad mewn perygl o beidio â chael ei anfon. Os hoffech chi anfon atodiad atom, neu wneud unrhyw ymholiadau sydd gennych am yr ymgynghoriad, gellir cyflwyno'r rhain ar wahân i'r un cyfeiriad e-bost a ddangosir uchod.

Byddai'n well gennym i ymatebion gael eu cyflwyno'n electronig os yn bosibl ond, pe bai'n well gennych gyflwyno'ch adborth ar gopi caled, gellir ei ddychwelyd, erbyn yr un dyddiad, i:

Ymgynghoriad Cyhoeddiadau Anllad
Tîm y DLA
Gwasanaeth Erllyn y Goron
102 Petty France
Llundain SW1H 9EA

Rhowch eich enw, eich sefydliad (os yw'n berthnasol), cyfeiriad post, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost mewn unrhyw ymateb.

Cyhoeddiadau Anllad - i'w hymgynggori

25 Gorffennaf 2018|*Cyhoeddiad*

- [Cyflwyniad](#)
- [Troseddau posibl](#)
- [Deddf Cyhoeddiadau Anllad 1959](#)
- [Ystyriaethau tystiolaethol](#)
- [Ystyriaethau er lles y cyhoedd](#)
- [Erthygl 10](#)
- [Atafaeliad a fforffediad](#)
- [Awdurdodaeth](#)
- [Ymdrin â'r dystiolaeth/datguddiad](#)
- [Dedfrydu](#)

Cyflwyniad

1. Mae'r Cyfarwyddyd Cyfreithiol hwn yn enwi troseddau posibl i'w hystyried gan erlynwyr wrth ymdrin â "cyhoeddiadau anllad", cyn canolbwyntio ar y Ddeddf Cyhoeddiadau Anllad 1959 ei hunan. Mae'n darparu cyfarwyddyd am y darpariaethau yn gyffredinol ac yn benodol ynglŷn â sut ddylai erlynwyr ymdrin â'r pwnc "anweddustra".

Troseddau posibl

2. Gall Erlynwyr ystyried y troseddau canlynol wrth ymdrin â chyhoeddau anllad:

- Meddu ar ddelwedd pornograffig eithafol, yn groes i adran 63 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008
- Creu, meddiannu, dosbarthu neu gyhoeddi delweddau anweddu/delweddau ffug o blant, yn groes i adran 1 Deddf Diogelu Plant 1978; meddu ar ddelwedd anweddu o blentyn, yn groes i adran 160 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988; meddu ar ddelweddau gwaharddedig o blant, yn groes i adran 62 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009
- Datgelu delweddau rhywiol preifat heb ganiatâd, yn groes i adran 33 Deddf Cyfiawnder Troseddola'r Llysoedd 2015
- Anfon cyfathrebiad sy'n anweddu, tramgwyddus iawn, yn cyfleu bygythiad neu sy'n ffug i achosi gofid neu bryder, yn groes i adran 1 Deddf Cyfathrebu Malesius 1988
- Anfon neges neu rywbeth tebyg drwy ddull rhwydwaith electronig cyhoeddus sy'n dramgwyddus iawn neu o natur anweddu neu fygythiol, neu yn ffug gyda'r bwriad o

achosi blinder, anhwylostod neu bryder diangen i unigolyn arall, yn groes i adran 127 Deddf Cyfathrebiadau 2003

- Ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi aflonyddwch i unigolyn arall, yn groes i adran 2 Deddf Amddiffyn rhag Aflonyddu 1997
- Ysgytio gwedduster y cyhoedd, yn groes i'r gyfraith gyffredin
- Mewnforio erthyglau anwedus, yn groes i adran 42 Deddf Gydgyfnerthu Tollau 1876
- Anfon erthyglau anwedus neu niweidiol drwy'r post, yn groes i adran 85 Deddf Gwasanaethau Post 2000
- Annog neu gynorthwyo â throstedd, yn groes i adrannau 44 i 46 Deddf Troseddau Difrifol 2007
- Deddf Plant a Ieuaint (Cyhoeddiadau Niweidiol) 1955. Mae hyn yn golygu bod yn drosedd i gyhoeddi erthyglau yn cynnwys storïau o luniau (pa un a ddaw gyda thestun neu beidio) yn dangos troseddau, trais, creulondeb neu ddigwyddiadau o natur ffiائد neu gas gyda thuedd i lygru plant. Mae uchafgob o bedwar mis mewn carchar a/neu dirwy o £1,000. Mae rhaid cael caniatâd y Twrnai Cyffredinol i erlyn
- Deddfau Recordiadau Fideo 1984 a 2010. Mae hyn yn darparu am gyfundrefn dosbarthu fideos yn ei golygu ei bod yn drosedd i beidio â chydymffurfio â hi, gyda chyfnodau hiraf mewn carchar o chwe mis lan at ddwy flynedd
- Deddf (Rheoli) Arddangosfeydd Anwedus 1981. Bydd rhywun sy'n caniatáu neu yn achosi arddangosiad o natur anwedus yn weladwy o le cyhoeddus yn euog o gyflawni trosedd, yn gosbadwy gyda lan at ddwy flynedd o garchar
- Deddf Theatrau 1968. Bydd rhywun sy'n cyflwyno drama anwedus gyda thuedd i lygru yn euog o gyflawni trosedd, yn gosbadwy gyda lan at dair mlynedd o garchar Mae angen cael caniatad y Twrnai Cyffredinol i erlyn

Deddf Cyhoeddiadau Anllad 1959

3. Mae Deddf Cyhoeddiadau Anllad 1959 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn drosedd i gyhoeddi (pa un am fudd neu beidio) erthygl anwedus. Mae'n hefyd yn ei gwneud yn drosedd i'r person sy'n meddu ar erthygl anwedus i'w chyhoeddi am fudd (budd personol, neu fudd am berson arall), i'w dehongli yn unol â'r darpariaethau Deddf Cyhoeddiadau Anllad 1964.

4. Mae Adran 1 y Ddeddf yn darparu diffiniadau o'r geiriau "erthygl", "cyhoedi" ac "anwedus". Mae Adran 4 yn darparu am amddiffyniad "er lles y cyhoedd".

- “Erthygl”: “unrhyw ddisgrifiad o erthygl yn cynnwys neu yn ymgorfforid deunydd i’w ddarllen neu i’w edrych arni neu’r ddau, unrhyw gofnod sain, ac unrhyw ffilm neu gofnod arall o lun neu luniau”.
- “Cyhoeddi”: cyhoeddir erthygl os bydd yn cael ei dosbarthu, ei chylchredeg, ei gwerthu, ei llogi, ei rhoi, ei benthyg, neu os byddai wedi ei chynnig am werth neu am logi, neu os bydd yn cael ei dangos, ei chwarae, ei chynllunio neu ei throsglwyddo yn electronig lle mae’r deunydd yn ddata a gedwir yn electronig (h.y. mae rhaid bod y data yn cael ei weld i’w gadw yn electronig).
- “Anweddus”: “bydd erthygl yn cael ei hystyried i fod yn anweddus os bydd effaith yr erthygl neu (ble mae’r erthygl yn cynnwys dau neu fwy o eitemau amlwg) effaith unrhyw un o’i heitemau yn cael eu hystyried, ar y cyfan, fel tuedd i lygru’r person a fydd yn debygol, wrth ystyried pob amgylchiadau perthnasol, i ddarllen, gweld neu glywed y deunydd a gynhwysir ynddi.” “Mae llygru yn golygu i wneud rhywbeth yn foesol drwg, i wyrdroi, i iselhau nei i lygru yn foesol. Mae llygru yn awgrymu bod rhywbeth yn cael ei halogi neu bydru, i ddinistrio’r purdeb moesol neu diweirdeb, i wyrdroi neu difetha ansawdd da, i iselhau, i halogi”: *Penguin Books Ltd* [1961] Crim LR 176.
- Mae’r amddiffyniad “er lles y cyhoedd”: mae hyn yn gofyn i’r amddiffyniad brofi bod y cyhoeddiad o’r erthygl dan sylw, os yw’r erlyniad wedi profi ei duedd i lygru, yn gyfiawnedig er hynny er lles y cyhoedd ar sail lles gwyddoniaeth, llenyddiaeth, celf neu ddysg, neu unrhyw wrthrychau eraill o bryder cyffredinol (neu yn achos ffilm lluniau neu trac sain, er lles drama, opera, bale neu unrhyw gelf arall, neu lenyddiaeth neu ddysg). Mae’r Ddeddf hefyd yn creu amddiffyniad am berson sy’n profi nad yw e/hi wedi archwilio’r erthygl, ac nad oedd ganddo/ganddi unrhyw achos rhesymol i dybio bod yr erthygl yn anweddus: adran 2(5).

Ystyriaethau tystiolaethol

5. Mae gan y gair "Anweddus" ddiffiniad a ddarperir gan y Ddeddf. Mae’r diffiniad hwn yn wahanol i’r diffiniad arferol o anweddus (“ffiaidd”, “brwnt”, “atgas” neu “anllad”) ac ni fydd yn ddigon i’r erlyniad brofi bod yr erthyglau dan sylw yn cwrdd â’r diffiniad arferol o anweddus oni bai eu bod hefyd yn cwrdd â’r trothwy uwch am duedd i lygredd moesol: *Anderson* [1972] 1 QB 304.

6. Mae’r diffiniad cyfreithlon hwn o anweddustra yn gymwys i erlyniadau dan y Ddeddf. Ble mae troseddau eraill yn gofyn am dystiolaeth eu bod yn anweddus (er enghraifft, y rhain sy’n groes i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, Deddf Gydgyfnerthu Tollau 1876 neu Ddeddf Gwasanaethau Post 2000), ond nad ydynt yn darparu diffiniad o’r gair anweddustra, bydd y diffiniad arferol yn gymwys.

7. Mae amddiffyniad yn seiliedig ar ddadl bod y gynulleidfa debygol eisoes yn llygredig yn annhebyg i'w lwyddo. Nid yw'r Ddeddf yn unig gysylltiedig â llygredd y rhai sy'n gwbl dieuog unwaith ac am byth ; yn yr un modd, mae'n ceisio amddiffyn y rhai sy'n llai diniwed rhag llygredd pellach, fel ceisio amddiffyn y dibynnwr rhag barhau gyda'i ddibyniaeth: *Whyte* [1972] 3 All ER 12.

8. Dylai'r rheithgor benderfynu'r cwestiwn am anweddustra heb unrhyw dystiolaeth arbennigol: *Calder and Boyars Ltd* [1969] 1 QB 151. Serch hynny, gall tystiolaeth o'r fath fod yn dderbyniol ynghylch tuedd i lygru (person neu dueddiad grŵp i ddeunydd) neu'r amddiffyniad er lles y cyhoedd (fel a ddarperir yn adran 4(2) y Ddeddf).

9. Wrth asesu tystiolaeth am anweddustra, dylai erlynwyr ystyried yn benodol y cwestiwn am bwy sy'n debygol i ddarllen, gweld neu glywed yr erthygl, a'r posibiliad y byddai'r erthygl yn eu llygru (heb ystyried os yw'r erthygl wedi'i darllen, ei gweld neu ei chlywed). Y cwestiwn mwyaf amlwg a chyffredin fydd a oes 'na posibiliad y byddai plant yn cael mynediad i'r deunydd. Ble cyhoeddir deunydd i swyddog heddlu neu berson arall nad yw'n debygol i fod yn llygredig, dylai erlynwyr ystyried y dystiolaeth bod (i) pobl eraill a fyddai'n tueddu i'w llygru gan yr erthygl a fu'n debygol i'w darllen, ei gweld neu ei chlywed (heb ystyried os gwnaethant hyn neu beidio), neu (ii) os yw'r dystiolaeth yn dangos bod y drwygdybyn wedi cael deunydd i'w gyhoeddi ac er budd.

10. Wrth ystyried os yw cynnwys erthygl yn "anweddu", dylai erlynwyr wahaniaethu rhwng:

- Cynnwys sy'n dangos neu yn disgrifio ymddygiad troseddol (heb ystyried os yw'n gweithgarwch anghydsyniol, neu gweithgarwch cydsyniol lle achosir niwed difrifol), sy'n debygol i fod yn anweddu;
- Cynnwys sy'n dangos neu yn disgrifio ymddygiad arall nad yw'n gyfreithlon, sy'n annhebygol i fod yn anweddu.

11. Gall gweithgarwch anghydsyniol a ddengys neu disgrifio gynnwys rhai nad ydynt yn gallu cydsyno i'r gweithgarwch. Mae hyn yn cynnwys plant, anifeiliaid a phobl meirwon. Mae Plant yn golygu unrhywun dan 18 mlwydd oed: mae adran 2 Deddf Diogelu Plant 1978 yn darparu am y diffiniad hwn a bydd cyhoeddiad yn dangos gweitharwch rhywiol gyda pherson o'r fath hefyd yn debygol i'w ddal gan y Ddeddf Diogelu Plant 1978, mabwysiedir yr un diffiniad er mwyn cael cysondeb.

12. Mae rhaid i weithgarwch anghydsyniol ar gyfer oedolion gael ei wahaniaethu o gydsynio i ildio rheolaeth. Dangosodd cyfarwyddyd blaenorol fod y bresenoldeb o

"safnrhwym" yn golygu na allai cydsyniad gael ei dynnu yn ôl. Ni fydd hyn, heb fwy, yn ddigon i gadarnhau bod gweithgarwch rhywiol yn anghydsyniol.

13. Ble mae person yn cydsynio i weithgarwch, ni fydd cydsyniad o'r fath, fel mater o'r gyfraith, yn dod i amddiffyniad am ymosodiad yn achosi gwir niwed corfforol neu waeth : *R v Brown ac eraill* [1994] 1 AC 212. Gall fod cyhuddiad am ymosodiad yn achosi gwir niwed corfforol lle achosir mwy na niwed dros dro neu niwed pitw. Fel mater o arfer cyhuddo, dylai'r cyhuddiad hwn gael ei gadw am niwed difrifol na all gael ei gwrdd â chyhuddiad ymosod a churo. Felly, gellir ystyried cyhoeddiadau sy'n dangos neu yn disgrifio peri niwed difrifol i fod yn anweddus oherwydd eu bod yn dangos ymosodiad troseddol er cydsyniad y dioddefwr. Mae hyn yn cynnwys datgymaliad a llurguniad graffig. Mae'n cynnwys mygu yn achosi anymwybyddiaeth, sy'n fwy na niwed dros dro neu niwed pitw, ac sy'n ddifrifol iawn wrth ystyried pa mor beryglus yw hi.

14. Mae rhaid i bob achos gael ei ystyried yn ôl ei ffeithiau a deilyngdod ei hun. Serch hynny, mae'r dangos neu disgrifio realistig o weithgarwch rhywiol/pornograffig a gynhwysir paratoi trosedd yn debygol i fod yn anweddus. Mae'r ffaith ei fod yn drosedd yn dangos ei natur moesol; lle gallai'r cyhoeddiad o bosib normaleiddio neu glodfori gweithgarwch o'r fath, bydd y prawf statudol yn diffinio beth yw anweddustra yn cael ei weld o ganlyniad.

Cwestiwn 1

A yw ymgynghoreion yn cytuno neu anghytuno gyda'r cyfarwyddyd bod y dangos neu disgrifio realistig o weithgarwch rhywiol/pornograffi yn golygu bod gweithgarwch neu ymddygiad yn groes i'r gyfraith droseddol (yn amodol ar yr amddiffyniadau statudol) yn debygol i fod yn anweddus?

15. I'r gwrthwyneb, mae rhaid dangos gofal mawr wrth asesu'r natur moesol o ddeddfau nad yw'r Senedd wedi'u darparu a ddylai fod yn atebol i gyfraith droseddol. Mae hyn yn benodol wir oherwydd er mae'n bosib iddynt gael eu dehongli i fod yn "ffiaidd", "brwnt", "atgas" neu "anllad", ac felly yn dod dan iaith gyffredinol i'w dosbarthu fel anweddus, ni fydd yn ddigon fel diffiniad anweddustra dan y Ddeddf.

Cwestiwn 2

A yw ymgynghoreion yn cytuno neu anghytuno gyda'r cyfarwyddyd bod rhaid i erlynwyr ddangos gofal mawr wrth ymdrin â'r natur moesol o ddeddfau nad yw wedi'u gwneud yn drosedd yn ôl y gyfraith, a bod y dangos neu disgrifio realistig o weithgarwch rhywiol/pornograffi nad yw'n golygu bod gweithgarwch neu ymddygiad yn groes i'r gyfraith droseddol yn annhebygol i fod yn anwedus?

16. Nid yw'n debygol y bydd yr ymddygiad canlynol (er bod cyfarwyddyd blaenorol yn dangos fel arall) yn cael ei erlyn o dan y Ddeddf:

- Fisting
- Gweithgarwch yn ymwneud â sylweddau corfforol (gan gynnwys piso, cyfog, gwaed ac ysgarthion)
- Achosio poen/artaith i rywun
- Caethiwed/cyfyngiad
- Gosod gwrthrychau i fewn yr wrethra
- Unrhyw weithgarwch rhywiol arall na waherddir yn ôl y gyfraith

oni bai:

- Ei fod yn gydsyniol;
- Ni achosir unrhyw niwed difrifol;
- Nid oes cyswllt anorfod rhwng hyn a throseddoldeb arall; a
- Nid yw'r gynulleidfa debygol dan 18 mlwydd oed ac felly yn fregus.

Cwestiwn 3

A yw ymgynghoreion yn cytuno neu anghytuno gyda'r cyfarwyddyd y dylai erlynwyr, wrth asesu anweddustra, ystyried:

- a. A yw'r gweithgarwch yn gydsyniol;**
- b. A yw niwed difrifol wedi'i achosi;**
- c. A oes cyswllt anorfod rhwng hyn a throseddoldeb arall; a**
- d. A yw'r gynulleidfa debygol dan 18 mlwydd oed ac felly yn fregus.**

17. Nid yw'r diffiniad o anweddustra yn ei gyfyngu i ddeunydd rhywiol neu pornograffig, er dyna beth sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o'r achosion hyn ac o'r achosion wedi'u hadrodd, ac mae'r cyfarwyddyd hwn ar y cyfan wedi'i ganolbwyntio ar y math hwn o anweddustra. Dylai erlynwyr ddangos gofal mawr ac ystyried pwysigrwydd sicrwydd cyfreithiol a rhybudd teg wrth ystyried cyhoeddiadau nad yw'n rhywiol/pornograffig. Nid yw syniad wedi'i diffinio yn wael am lygredd moesol neu lygredd yn darparu am ddarnodiad cyfreithiol o gywirdeb ddigonol i alluogi dinesydd i reoleiddio ei ymddygiad/hymddygiad. Serch hynny, ble mae ymddygiad neu gweithgarwch yn ei hun yn drosedd, gall fod yn arwydd clir ynglŷn â'i natur moesol. Gallai cyhoeddiad ddangos neu disgrifio realistig ymddygiad o'r fath o bosib normaleiddio neu glodfori gweithgarwch o'r fath. O ganlyniad, mae erlyniad dan y Ddeddf yn bosibl am anweddustra nad yw'n rhywiol neu'n bornograffig o ran natur ond sy'n dangos neu disgrifio realistig ymddygiad troseddol, er enghraifft troseddau yn erbyn y person neu droseddau casineb.

Cwestiwn 4

A yw ymgynghoreion yn cytuno neu anghytuno gyda'r cyfarwyddyd bod y dangos neu disgrifio realistig o weithgarwch neu ymddygiad arall sy'n groes i'r gyfraith droseddol hefyd yn gallu bod yn anweddustr?

Cwestiwn 5

A oes unrhyw awgrymiadau pellach gan ymgynghoreion am gyfarwyddyd i erlynwyr wrth asesu "anweddustra" ac yn ystyried honiadau yn dod dan Ddeddf Cyhoeddiadau Anllad 1959?

Ystyriaethau er lles y cyhoedd

18. Os (ac yn unig os) bydd y cam tystiolaethol yn cael ei gwrdd, dylai erlynwyr barhau i ystyried y cam er lles y cyhoedd o'r Côt Erlynwyr y Goron.

19. Yn ychwanegol:

- Dylai Erlynwyr gyfeirio'r ffactorau dilynol wedi'u henwi mewn Ateb Ysgrifenedig Seneddol a ddarperir gan y Twrnai Cyffredinol ar 16 Mehefin 1997:

"wrth benderfynu a fyddai er lles y cyhoedd i gael erlyniad, mae'r prif ffactorau yn cynnwys:

- i. y raddau a'r math o anweddustra yn ogystal â sut mae'n cael ei gyflwyno;
 - ii. y math a'r maint o unrhyw fenter fasnachol;
 - iii. a oedd cyhoeddiad wedi'i wneud am blentyn neu a oedd posibiliad y byddai cyhoeddiad o'r fath yn digwydd."
- Dylai erlynwyr gyfeirio pam fod angen cael erlyniad er lles y cyhoedd gan esbonio a fyddai (a pham/pam lai) atafaeliad a fforffediad (gweler isod) yn ffurf dderbyniol o weinyddu.

Erthygl 10

20. Mae Erthygl 10(1) yn darparu bod gan bawb yr hawl rhyddid i ddatgan barn. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddiadau wedi'u honni i fod yn anwedus. Serch hynny, mae erlyniad yn ganiataol am drosedd wedi'i bennu gan y gyfraith ac yn angenrheidiol a chymesuradwy er mwyn atal anhrefn trosedd ac amddiffyn iechyd neu foesau: 10(2). Yn *Handyside v United Kingdom* (1976) 1 EHRR 737 cydnabyddodd Llys lawnderau Dynol Ewrop fod erlyniadau dan y Ddeddf yn ganiataol o dan yr ail eithriad. O ganlyniad, oni bai bod y cyhoeddiad a ystyrir yn amlwg anwedus yn dangos neu disgrifio realistig ymddygiad yn ôl gyfraith droseddol, a bod y cam er lles y cyhoedd yn cael ei ystyried yn ofalus ac yn cyfeirio angenrheidrwydd a chymesurolddeb, wedi gyfeirio at y cyfarwyddyd yn *Handyside*, bydd erlyniad yn gydsyniol ag Erthygl 10.

Atafaeliad a fforffediad

21. Mae'r Ddeddf yn darparu dewis arall i erlyniad yn adran 3 sy'n rhoi pŵer i atafaelu a fforffedu erthyglau o'r fath. Mae hyn yn gofyn i'r deunydd gael ei atafaelu yn unol â gwarant yn cael ei rhoi o dan yr adran hon. Bydd gan Erlynwyr arweiniad am achosion o'r fath: gweler adran 3(2)(d) Deddf Erlyniad Troseddau 1985. Gall achosion o'r fath yn cydreddeg i erlyniad a chael eu gohirio hyd ganlyniad yr erlyniad. Bydd rhaid i'r llys yn pennu fforffediad gael gwybod a oes rhyddfarn wedi bod ac ar ba sail.

22. Mae Swyddogion Cyfraith wedi sicrhau y lle bydd cyhoeddwr yn ymyrryd ag achosion fforffediadau ac yn dangos bwriad i barhau cyhoeddi, beth bynnag y bo'r canlyniad yr achosion fforffediadau, yna yn absenoldeb amgylchiadau arbennig a chyda digon o dystiolaeth y bydd y Cyfarwyddwr fel arfer yn mynd yn ei flaen yn erbyn y cyhoeddwr drwy erlyniad yn hytrach na dilyn yr achosion fforffediadau. Nid

yw'r sicrwydd yn gymwys i gylchgronau "rhad". Mae rhain yn gylchgronau lle ni ellir gwneud unrhyw honiad llenyddol, celfyddydol, gwyddonol neu unrhyw deilyngdod arall. Mae rhain yn gylchgronau a ystyrir yn rhinwedd eu natur a chymeriad nad ydynt yn haeddu ystyriaeth gan farnwr a rheithgor, lle bydd eu gwasgu y ffordd mwyaf priodol o'u gweinyddu.

Awdurdodaeth

23. Terfyn amser. Ni chychwynnir erlyniad cyhoeddiadau anwedus mwy na dwy flynedd wedi pennu'r trosedd: adran 2(3) y Ddeddf.

24. Daearyddiaeth. Mae "Cyhoeddi" yn golygu trosglwyddo data, y ddau lanlwytho a lawrlwytho. Ble fyddai diffynnydd yn lanlwytho deunydd tu allan i Loegr neu Cymru, a byddai person yna yn lawrlwytho'r deunydd yn Lloegr neu Cymru, bydd gan y llysoedd awdurdodaeth i roi'r diffynnydd ar brawf: *Perrin* [2002] EWCA Crim 747. Yn fwy cyffredinol, bydd gan y llysoedd yn Lloegr a Chymru awdurdodaeth lle mae nifer sylweddol o weithgarwch yn golygu trosedd yn digwydd o fewn Lloegr a Chymru, oni bai gall gael ei ddadlau, o safbwynt rhesymol, y dylai'r ymddygiad gael ei ymdrin gan llysoedd gwlad arall: *Smith (Wallace Duncan)* (Rhif.4) [2004] EWCA Crim 631. Am erlyniadau o dan y Ddeddf, cyflwyno i olygu fod nifer sylweddol o'r gweithgarwch yn ymgymryd â chyhoeddi neu bod nifer sylweddol o'r gynulleidfa yn debygol i'w llygru.

Ymdrin â'r dystiolaeth/datguddiad

25. Dylai gofyn gan yr amddiffynniad i weld yr erthyglau yn gysylltiedig gael ei gytuno ag ef. Ni ddylai'r eitemau gael eu copïo oherwydd bydd hyn yn golygu cyhoeddi pellach yn groes i'r Ddeddf. Yn wahanol i Ddeddf Diogelu Plant 1978 nid oes cyfwerth yn y Ddeddf am gopïo erthyglau am ddibenion achosion troseddol. Yn lle hynny dylai cyfreithiwr neu gwmsler y diffynnydd gael mynediad at lleoliad addas gan gynnwys y cyfle i gynnal trafodaethau preifat a chyfrinachol gyda chynghorwyr cyfreithiol, na arolygir ac na sylwir arnynt gan swyddogion heddlu neu gynrychiolwyr y CPS. Lle bo'n bosibl, dylai mynediad o'r fath naill ai digwydd mewn adeiladau'r heddlu, neu mewn swyddfa naill ai cyfreithiwr y diffynnydd neu swyddfa'r amddiffynniad neu'r arbenigwr erlyniad. Dylai'r cyhuddedig ond yn gael mynediad yng nghwmni eu cynrychiolydd cyfreithiol. Dylai unrhyw ddadl am fynediad i'r erthyglau gael eu cyfeirio at y llys i wneud cyfarwyddiadau yn unol â'r Ddeddf ac sy'n caniatáu'r amddiffynniad i amddiffyn eu cleientiaid yn iawn.

Dedfrydu

26. Gall troseddau sy'n groes i'r ddeddf cyhoeddiadau anllad gael eu rhoi ar brawf yn ddiannod neu drwy dditiad. Mae'r uchafgosb yn bum mlynedd o garchariad a/neu dirwy ddigyfyngiad.